



# Helynt Y Goedwig



# Helynt Y Goedwig



**Mae'r haul wedi machlud**

yn grwn ac yn gochlyd  
cyn llithro'n hamddenol  
i'w wâl orllewinol.

**Bydd** trigolion y llan

**yn clwydo'n** y man,  
yn cloi eu drysau  
ac yn diffodd y golau,  
yn sibrwd 'Nos da'  
wedi hirddydd ha'  
cyn swatio'n glyd  
trwy'r nos ar ei hyd  
a chysgu'n drwm  
nes daw'r bore i'r cwm.

**Mae hi'n** noson fwyn o Fehefin.

Ac wrth i drigolion y llan

gau pen y mwdwl

ar ddiwrnod arall

**mae** holl anifeiliaid y goedwig

**yn ymgasglu**

yn y llannerch

yng nghysgod y dderwen fawr

ger y garreg sgleiniog

yn y pant

wrth droed y bryncyn

ar lan yr afon.

**Mae'r** anifeiliaid i gyd **yno**;

y pysgod a'r llygod

a theulu'r gwiwerod,

y morgrug a'r adar

y 'stlumod a'u radar,

y geifr a'r cacwn

a'r pryfed a'r dwrgwn,

y ceirw a'r lamas

(sy'n gwisgo'u pyjamas)

a llawer mwy.

**Mae** Dewi'r Draenog Dedwydd **yno**.

**Mae** Anwen, Yr Arth Fawr Addfwyn, **yno**.

**Mae** hyd yn oed Bleddyn,

Y Blaidd Mawr Mwyn, **yno**.

Ac yn eistedd

ar un o ganghennau'r dderwen fawr

sy'n ymestyn dros y llannerch

**mae** Gwydion y Gwdihw Doeth,

cadeirydd y cyfarfod.



**Mae hi'n** noson loergan, glaerwen  
ac **mae'r lleuad a'r sêr**  
**yn gwenu'n** dirion  
ar bawb a phopeth  
yn y goedwig.

Ond **'dyw** pawb yn y goedwig  
**ddim** yn gwenu.  
**'Dyw** pawb yn y goedwig  
**ddim** yn gwbl hapus.  
“**Dw i ddim** yn hapus”  
meddai Dewi'r Draenog Dedwydd.  
“Bob bore, pan **dw i'n trio**  
cysgu i mewn am ychydig  
**dw i'n cael** 'y neffro  
yn sydyn  
gan sŵn cerddoriaeth uchel ofnadwy  
o ben draw'r goedwig.  
A **dw i ddim yn gallu**  
mynd nôl i gysgu wedyn.  
A dweud y gwir  
**mae e'n gwneud** i fi  
ymddwyn braidd yn bigog  
ar brydiau.  
A **'dyw hynny ddim** fel fi.”

“Nag yw. Ddim o gwbl”  
cytunodd pawb.

“**Dw i ddim yn hapus** chwaith”  
meddai Anwen, yr Arth Fawr Addfwyn.



“Bob bore, pan **dw i’n trio**  
cysgu i mewn am ychydig  
**dw i’n cael** ’y neffro  
yn sydyn  
gan sŵn crafu ar fetel  
a rhegi a bytheirio  
a gwynt llosgi difrifol  
o ben draw’r goedwig.

**A dw i ddim yn gallu**  
mynd nôl i gysgu wedyn.  
A dweud y gwir  
**mae e'n gwneud** i fi  
arthio ar anifeiliaid eraill  
ar brydiau.  
**A 'dyw hynny ddim** fel fi."

"Nag yw. Ddim o gwbl"  
cytunodd pawb.

**"Dw i ddim yn hapus"**  
meddai Bleddyn, y Blaidd Mawr Mwyn.  
"Bob bore, pan **dw i'n trio**  
cysgu i mewn am ychydig  
**dw i'n cael** 'y neffro  
yn sydyn  
gan sŵn cnocio a llifio  
o ben draw'r goedwig.  
**A dw i ddim yn gallu**  
mynd nôl i gysgu wedyn.  
A dweud y gwir  
**mae e'n gwneud** i fi  
ymddwyn yn gas iawn  
weithiau.  
**A 'dyw hynny ddim** fel fi."

"Nag yw. Ddim o gwbl"  
cytunodd pawb.

Yr un oedd yr hanes  
gan yr anifeiliaid i gyd;  
y pysgod a'r llygod  
a theulu'r gwiwerod,  
y morgrug a'r adar  
y 'stlumod a'u radar,  
y geifr a'r cacwn  
a'r pryfed a'r dwrgwn,  
y ceirw a'r lamas  
(oedd yn gwisgo'u pyjamas)  
a phob anifail arall hefyd.

Ac **roedd** pob un ohonyn nhw'n  
adrodd yr un stori.

**Roedd** yr holl sŵn  
o ben draw'r goedwig  
**yn difetha'u cwsg**  
ac yn eu rhoi nhw  
mewn hwyliau drwg iawn.

Wedi clywed yr holl dystiolaeth  
**daeth hi'n** amlwg  
bod angen gwneud rhywbeth  
ynglŷn â'r sŵn ofnadwy  
o ben draw'r goedwig.

"Iawn" meddai Gwydion.

**"Mae angen** gwneud rhywbeth  
ynglŷn â'r sŵn ofnadwy  
o ben draw'r goedwig.

**Dw i'n cynnig**  
bod Dewi'r Draenog Dedwydd,  
Anwen, Yr Arth Fawr Addfwyn  
a Bleddyn, Y Blaidd Mawr Mwyn  
yn mynd draw  
i ben draw'r goedwig  
i weld beth sydd yn digwydd  
yn fan'na.

A **dewch nôl** i fan hyn  
yr un pryd  
nos yfory.

Ond" meddai,  
gan droi at y tri ohonyn nhw  
"os **dych chi am weld**  
pwy neu beth  
sy'n achosi'r holl sŵn'ma  
yn gynnwys yn y bore  
**well i chi** ddechrau cerdded  
nawr  
er mwyn cyrraedd  
pen arall y goedwig  
y peth cynta'n y bore."

**Cytunodd y tri** i hynny  
ac felly  
i ffwrdd â Dewi, Anwen a Bleddyn  
i weld beth **oedd** yn achosi'r holl sŵn  
**oedd** yn difetha'u cwsg  
(ac yn eu rhoi nhw  
mewn hwyliau drwg iawn).

\* \* \* \* \*



Ar ôl cerdded  
am amser go hir  
**cyrhaeddodd** y tri anifail blinedig  
(a drwg iawn eu hwyliau)  
ben draw'r goedwig  
wrth iddi wawrio.  
Ac wrth i'r haul yn y dwyrain  
godi uwchlaw'r mynydd  
yn sydyn iawn  
dyma nhw'n clywed  
sŵn cerddoriaeth uchel iawn.



Draw â nhw  
i gyfeiriad y sŵn  
a phwy **welson nhw** yno  
tu allan i iwrt,  
yn dawnsio'n egniol  
i'r gerddoriaeth  
ond tywysoges mewn tiara.



**“Mae’n rhaid i fi** ddawnsio’n egniol  
ben bore fel hyn  
er mwyn deffro’n iawn”  
meddai’r Dywysoges Hir Ei Chwsg  
(achos dyna pwy **oedd hi**)  
**oedd wedi** penderfynu  
gadael ei phalas moethus  
yng nghanol y ddinas  
a thrio byw  
bywyd gwyrdd ac ecolegol gywir  
yn y goedwig.  
Ac ymlaen â hi  
gyda’i hercio a’i throelli.

“Dyma pwy sydd wedi bod  
yn ein deffro ni  
bob bore  
gyda’r gerddoriaeth uchel’ma”  
meddai Dewi’r Draenog.  
**“Wna i fynd** draw i gael gair  
gyda hi  
a gofyn yn garedig iddi hi  
gadw’r sŵn i lawr.”

A draw ag e at y dywysoges  
oedd yn dawnsio’n wyllt  
ac yn egniol.

**“Esgusodwch fi** am eiliad”  
meddai Dewi.  
**“Ydy hi’n bosib**  
i fi gael gair bach  
gyda chi?”

**Trodd** y dywysoges at Dewi  
a **dechreuodd hi** sgrechian  
yn afreolus.

“O na. Draenog pigog.  
Y tro diwetha i fi bigo ’mys  
**wnes i gysgu** am gan mlynedd!”



Ac i ffwrdd â hi  
i lawr y lân  
allan o’r goedwig  
gan weiddi  
“Help, help. Draenog pigog.  
**Dw i wedi cael** hen ddigon  
o drio byw  
bywyd gwyrdd ac ecolegol gywir  
yn y goedwig.  
**Dw i’n mynd** nôl  
i ’mhalas moethus  
yng nghanol y ddinas.”

“Wel” meddylodd Dewi.  
“Am ymddygiad rhyfedd!”

Wrth iddyn nhw wyllo'r dywysoges  
yn rhedeg i lawr y lôn  
dyma Dewi, Anwen a Bleddyn yn sydyn  
yn clywed gwynt llosgi  
a sŵn crafu ar fetel  
yn dod o ganol y coed gerllaw  
a rhywun yn rhegi ac yn bytheirio  
nes **oedd** yr awyr yn goch.  
Felly, draw â nhw  
ar unwaith  
i gyfeiriad y sŵn a'r gwynt.



A phwy **welson nhw** yno  
tu allan i babell  
yn crafu sosban haearn  
gyda ladel ddur  
ond Elen Benfelen  
(achos dyna pwy **oedd hi**)  
**oedd wedi** penderfynu  
gadael ei chartref dosbarth canol, clyd  
yn un o faestrefi'r ddinas  
a thrio byw  
bywyd gwyrdd ac ecolegol gywir  
yn y goedwig.

Ac ymlaen â hi  
gyda'i chrafu a'i bytheirio.

“Go dratia’r hen dân agored’ma!  
Dyw e’n dda i ddim byd” meddai.  
“**Dw i’n llosgi’r uwd** bob bore  
yn y sosban haearn’ma.”

“Dyma pwy sydd wedi bod  
yn ein deffro ni  
bob bore  
gyda’r crafu a’r rhegi a’r bytheirio”  
meddai Anwen Yr Arth.  
“**Wna i fynd** draw i gael gair  
gyda hi  
a gofyn yn garedig iddi hi  
gadw’r sŵn i lawr.”

A draw â hi at Elen Benfelen  
**oedd** yn crafu’n egniol  
ac yn rhegi ac yn bytheirio.

“**Esgusodwch fi** am eiliad”  
meddai Anwen.  
“**Ydy hi’n bosib**  
i fi gael gair bach  
gyda chi?”

**Trodd** Elen Benfelen at Anwen  
a **dechreuodd hi** sgrechian  
yn afreolus.

“O na. Arth Fawr Filain.

**Mae hi wedi dod**

i fwyta’n uwd i  
(neu efallai fi?)”



Ac i ffwrdd â hi  
i lawr y lôn  
allan o'r goedwig  
gan weiddi  
"Help, help. Arth Fawr Filain.  
**Dw i wedi cael** hen ddigon  
o drïo byw  
bywyd gwyrdd ac ecolegol gywir  
yn y goedwig.  
**Dw i'n mynd nôl**  
i 'nghartref dosbarth canol, clyd  
yn un o faestrefi'r ddinas."

"Wel" meddyliodd Anwen.  
"Am ymddygiad rhyfedd!"

Wrth iddyn nhw wylïo Elen Benfelen  
yn rhedeg i lawr y lôn  
dyma Dewi, Anwen a Bleddyn yn sydyn  
yn clywed sŵn cnocio a llifïo mawr  
yn dod o ganol y coed gerllaw.  
Felly, draw â nhw  
ar unwaith  
i gyfeiriad y sŵn.  
A phwy **welson nhw** yno  
yn adeiladu tri thŷ  
(un allan o wellt,  
un allan o bren  
ac un allan o frics wedi'u hailgylchu)  
ond y Tri Mochyn Bach  
(achos dyna pwy **oedden nhw**)  
**oedd wedi** penderfynu  
gadael eu mam  
yn ei bwthyn bach hen ffasiwn  
ar gyrion y pentref  
**(oedd yn drwm iawn**  
ar drydan a nwy  
a heb ei insiwleiddio'n ddigonol)  
a thrio byw bywyd  
gwyrdd ac ecolegol gywir  
yn y goedwig.

“Dyma pwy sydd wedi bod  
yn ein deffro ni  
bob bore  
gyda sŵn cnocio a llifio”  
meddai Bleddyn Y Blaidd Mawr Mwyn.  
“**Wna i fynd** draw i gael gair  
gyda nhw  
a gofyn yn garedig iddyn nhw  
gadw’r sŵn i lawr.”

A draw ag e at Y Tri Mochyn Bach  
oedd wrthi’n cnocio  
ac yn llifio’n ddiwyd iawn.

“**Esgusodwch fi** am eiliad”  
meddai Bleddyn.  
“**Ydy hi’n bosib**  
i fi gael ga ....a....a...ah.....ahtsw!”





A dyma Bleddyn yn dechrau tisian  
a thisian a thisian  
(roedd e'n diodde o glefyd y gwair  
ac **roedd** y paill yn y gwellt  
yn nhŷ'r mochyn bach cyntaf  
**wedi** dechrau gwneud  
i'w drwyn gosi'n ddifrifol).  
A dyma fe'n tisian ac yn tisian  
ac yn tisian  
a dyma fe'n tisian mor gryf  
nes chwythu'r tri thŷ i lawr.

**Trodd** Y Tri Mochyn Bach at Bleddyn  
a **dechreuon nhw** sgrechian.  
"O na. Blaidd Mawr Cas.  
Y tro diwetha i ni weld blaidd  
**wnaeth e drio**'n bwyta ni."

Ac i ffwrdd â nhw  
i lawr y lôn  
allan o'r goedwig  
gan weiddi  
"Help, help. Blaidd Mawr Cas.  
**Dyn ni wedi cael** hen ddigon  
o drio byw  
bywyd gwyrdd ac ecolegol gywir  
yn y goedwig.  
**Dyn ni'n mynd** nôl  
i fwthyn bach hen ffasiwn mam  
ar gyrion y pentref  
(er ei fod e'n drwm iawn  
ar drydan a nwy  
a heb ei insiwleiddio'n ddigonol)

"Wel" meddai Bleddyn  
ymhen pum munud  
ar ôl iddo fe stopio tisian.  
"Am bwl cas o disian!"

A dyma fe'n edrych o'i gwmpas.  
"O.....Lle mae'r Tri Mochyn Bach wedi mynd?"

A pam **maen nhw wedi** bwrw  
eu tai i gyd i lawr?  
Am ymddygiad rhyfedd!"

\* \* \* \* \*

**Mae hi'n** noson fwyn o Fehefin  
unwaith eto.  
Ac wrth i drigolion y llan  
gau pen y mwdwl  
ar ddiwrnod arall  
**mae** holl anifeiliaid y goedwig  
**yn ymgasglu** unwaith eto  
yn y llannerch  
yng nghysgod y dderwen fawr  
ger y garreg sgleiniog  
yn y pant  
wrth droed y bryncyn  
ar lan yr afon.

**Mae'r** anifeiliaid i gyd **yno**;  
y pysgod a'r llygod  
a theulu'r gwiwerod,  
y morgrug a'r adar  
y 'stlumod a'u radar,  
y geifr a'r cacwn  
a'r pryfed a'r dwrgwn,  
y ceirw a'r lamas  
(sy'n gwisgo'u pyjamas)  
a llawer mwy.

**Mae** Dewi'r Draenog Dedwydd **yno**.  
**Mae** Anwen, Yr Arth Fawr Addfwyn, **yno**.  
**Mae** hyd yn oed Bleddyn,  
Y Blaidd Mawr Mwyn, **yno**.

Ac yn eistedd  
ar un o ganghennau'r dderwen fawr  
sy'n ymestyn dros y llannerch  
**mae** Gwydion y Gwdihw Doeth,  
cadeirydd y cyfarfod.  
**Mae hi'n** noson loergan, glaerwen  
ac **mae'r** lleuad a'r sêr  
yn gwenu'n dirion  
ar bawb a phopeth  
yn y goedwig.

Ac **mae pawb** yn y goedwig **yn gwenu**.  
**Mae pawb** yn y goedwig **yn gwbl hapus**.

**"Dw i'n falch iawn** o ddweud,  
diolch i Dewi, Anwen a Bleddyn,  
bod ein problemau ni drosodd bellach"  
meddai Gwydion.  
"Ond gan ein bod ni wedi colli  
cymaint o gwsg  
yn ddiweddar  
**dw i'n cynnig** ein bod ni i gyd,  
(heblaw amdana i, wrth gwrs)  
yn cael noson gynnar heno."

"Clywch! Clywch!" meddai pawb  
a ffarwelio â'i gilydd  
a mynd adre i gysgu.

Ac wrth i'r holl anifeiliaid  
ddechrau swatio'n glyd  
a llithro i fyd breuddwydion  
**mae'n amser** bellach i ninnau,  
ffrindiau annwyl,  
ddweud ffarwél  
a'i throi hi am adre.

*Mae holl anifeiliaid y goedwig  
yn mynd i gysgu nawr.  
Mae'r ceirw a'r lamas  
'di gwisgo'u pyjamas  
mae'n amser swatio i lawr.  
Nos da, cysga dy ore.  
Nos da, wela i di'n bore.  
Mae pawb yn eu gwllâu ond y gwddihw.  
Nos da nawr.*



*Nos da*